

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Tachwedd 14^{eg}, 2018 am 7.15 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs K.D.L Davies	W.D. Evans
	I. Rh. Llewelyn	D. Hopkins	Mrs J.E Collins
	Mrs Ll. Latham		

Ymddiheuriadau

Cynghorydd	Mrs C. Thomas
------------	---------------

414.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

415.

Cyllideb ar gyfer Praesept 2019 -20

Roedd y Clerc eisoes wedi dosbarthu copïau manwl o'r ffigyrau cyllideb a awgrymwyd, a balansau rhagamcanol diwedd blwyddyn cyfrifon y Cyngor. Cytunwyd **argymell** i'r Cyngor Llawn bod £70,000 ar gael i uwchraddio'r ardaloedd chwarae, sef gwaith i newid offer sydd wedi torri, neu a amlygwyd bod angen ei newid yn ystod y 12 mis nesaf. Byddai'r arian yma yn dod o wariant 2018/2019. Roedd y Clerc eisoes wedi cwrdd â thri chwmni ac yn aros am ddyfynbrisiau ar gyfer pob parc.

416.

Prosiectau Cyfalaf

Roedd yr Aelodau wedi adolygu blaenoriaethau'r Cyngor mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf, ac **argymhellwyd** cymeradwyo'r canlynol i raglen y flwyddyn nesaf:

Prosiectau ar gyfer 2019/2020

1. Gwelliannau yng ngorsaf drenau Llandybïe	£1000
2. Darparu matiau blodau gwyllt mewn amrywiol leoliadau – ar ochr heolydd ac yn y parciau	£3000
3. Adeiladu pafin ar un ochr o Heol Aberlash	£5000
4. Hysbysfwrdd llwybr cerdded Calon Cymru	£1000
5. Plannu coed brodorol yn y parciau os oes lle i wneud hynny (coed deri a cherdin)	£1000
6. Arwyddion ar y priffyrdd i ddynodi bod parciau gerllaw	£5000
7. Arwyddion ym mhob parc i ddangos perchnogaeth/ rhif cyswllt	£5000
8. Placiau nawdd	£1000
9. Arwyddion dim baw ci / cadw cŵn ar dennyn	£1000
10. Llifoleuadau ym mharc Penygroes	£2000

417.

Parciau ac Ardaloedd Chwarae

Hefyd **argymhellwyd** dyrannu £30,000 ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw'r parciau. Yn ogystal **argymhellwyd** bod £150 mil yn cael ei glustnodi ar gyfer unrhyw brosiect addas a gymeradwyir gan y Cyngor Llawn.

418.

Crynodeb o ffigyrau'r Gyllideb: 2019-2020

INCWM	£
Praesept	180,000
Llog: Lloyds	250
Llog: cyfrifon buddsoddi	400
Grant Cynnal a Chadw	0
Incwm Arall	1,800
Hawliau Tramwy Cyhoeddus	3,000
Cytundebau Llogi	4,200
	189,650
GWARIANT	
Cyflogau'r Staff ac Yswiriant Gwladol	43,656
Gweinyddu Cyffredinol	56,575
Atgyweirio a chynnal a chadw'r Ardaloedd Chwarae	30,000
Taliadau Adran 137	}
Taliadau yn unol â phwerau eraill	
Mannau agored cyhoeddus	
Neuaddau pentref	
Claddfeydd	
	18,000
Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
Hawliau Tramwy - gwelliannau	10,000
Goleuo cyhoeddus - ynni	
Goleuo cyhoeddus - gwelliant	8,500
Cyfleusterau Cyhoeddus	10,000
Lwfans y Cadeirydd	300
Prosiectau Datblygu Cymunedol - Clustnodwyd	25,000
Cyfanswm	202,031

Bydd y diffyg ariannol o £12,381 yn dod o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Tachwedd 14^{eg}, 2018

Argymhellwyd bod y ffigyrau uchod, sy'n cynnwys codi cyflog y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol o un pwynt cyflog, yn mynd gerbron cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor Llawn a gynhelir ym mis Tachwedd 2018.

Hefyd cytunwyd **argymell** i'r Cyngor Llawn bod y praesept yn aros fel y mae, sef £180,000.

419.

Adolygiad o'r gweithdrefnau Archwilio Mewnol

Cwmpas yr Archwiliad Mewnol – Atgoffwyd yr Aelodau taw Mr Lyn Llewelyn yw archwiliwr mewnol penodedig Cyngor Cymuned Llandybïe. Penderfynwyd y bod yn dal i wasanaethu fel yr archwiliwr mewnol ar gyfer 2018/2019 yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 30^{ain} 2018. Roedd yr Aelodau wedi adolygu'r Cynnig Gwasanaeth Archwilio Mewnol a oedd yn cyfeirio'n benodol at ei annibyniaeth a'i gymhwysedd, ei lyniad at y cynllun archwilio mewnol a'i ffioedd.

Annibyniaeth – Hysbysodd y Clerc yr Aelodau y bydd Mr Llewelyn yn parhau i gynnal yr archwiliad heb ddylanwad gormodol neu wrthdrawiad buddion.

Cymhwysedd – Mae Mr Lyn Llewelyn wedi cynnal yr archwiliad mewnol ar ran y Cyngor am flynyddoedd lawer, ac yn gwbl gymwys i wneud y gwaith. Mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad gweithio yn Llywodraeth Leol, mae'n cyn-Ddirprwy Prif Weithredwr a Swyddog Cyllid Un Llais Cymru ac yn Glerc i ddau Gyngor lleol.

Perthynas – Nid oes gan Mr Llewelyn unrhyw gysylltiad â'r Clerc / y Swyddog Cyllid Cyfrifol neu unrhyw Gynghorydd Cymuned.

Cynllunio a Riportio'r Archwiliad – Roedd yr Aelodau wedi penderfynu derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2017/2018 yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 30^{ain} 2018. Mae'r Cofnod fel a ganlyn:

Darllenodd y Clerc adroddiad a sylwadau yr Archwiliwr Mewnol, a oedd yn datgan i'r holl brofion penodedig ynghylch systemau rheolaeth mewnol y Cyngor gael eu cwblhau'n foddhaol. Nid oedd unrhyw faterion yn deillio o'r archwiliad oedd angen eu dwyn gerbron y Cyngor, ac roedd yr adran briodol o'r Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau gan yr archwiliwr gan adlewyrchu ei ddarganfyddiadau. Adroddodd yr Archwiliwr ymhellach bod y wybodaeth cyfrifo ariannol yn parhau i gael ei chadw i safon broffesiynol uchel gyda thrywydd archwilio ardderchog.

Argymhellodd yr Aelodau nad oedd angen unrhyw gynlluniau gweithredu, ymchwiliadau neu adolygiadau mewnol ynghylch yr adroddiad, a bod y system bresennol yn ffordd effeithiol ac effeithlon o sicrhau bod gweithdrefnau archwilio mewnol Cyngor Cymuned Llandybïe yn ddigonol at bwrpas rheoli.

420.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.50 yh.

Cadeirydd